



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA)

Adroddiad ac argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddir o dan
adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyfeirnod 062



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Cynnwys

1	Cyd-destun	1
2	Sail yr ymchwiliad	2
3	Yr ymchwiliad	4
4	Y dystiolaeth	5
	Ystyriaeth 1: Cyflwyniad	5
	Ystyriaeth 2: Cyflenwi gwasanaethau (darpariaeth)	12
	Ystyriaeth 3: Cyflawni gwasanaethau (dewis iaith)	14
5	Casgliadau	16
	Casgliad 1: Cyflwyniad	16
	Casgliad 2: Cyflenwi gwasanaethau (darpariaeth)	16
	Casgliad 3: Cyflenwi gwasanaethau (dewis iaith)	17
6	Argymhellion	18

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad ymchwiliad hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn unol ag adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn sgil trosglwyddo swyddogaethau perthnasol o dan y Ddeddf i'r Comisiynydd drwy gyfres o offerynnau statudol.

Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i'r posibilrwydd o fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith o dan adran 17 y Ddeddf:

17. – (1) Lle ymddengys i'r Bwrdd¹, boed yn sgil cwyn a wnaed iddo o dan adran 18 isod neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad er mwyn gweld a fu methiant.

(2) Bydd y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon yn gyfryw ac y cred y Bwrdd ei bod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos, ac yn arbennig gellir cynnal ymchwiliad yn breifat.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Cwynion am fethu â chydymffurfio

Mae adran 18 y Ddeddf yn gymwys lle gyflwynir cwyn gan berson am fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith:

18. – (1) Mae'r adran hon yn gymwys –

(a) lle cyflwynir cwyn ysgrifenedig i'r Bwrdd gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi effeithio'n uniongyrchol arno,

(b) lle gwneir y gwyn o fewn cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y gwybu'r achwynydd gyntaf am y materion a honnir yn y gwyn, ac

(c) lle y mae'r Bwrdd yn fodlon fod yr achwynydd wedi dod â'r mater y cwynir amdano i sylw'r corff cyhoeddus o dan sylw a bod y corff hwnnw wedi cael cyfle rhesymol i'w ystyried ac i ymateb.

(2) Lle y mae'r adran hon yn gymwys, bydd y Bwrdd naill ai'n ymchwilio i'r gwyn honno o dan adran 17 uchod neu'n anfon datganiad o'i resymau dros beidio â gwneud at yr achwynydd.

¹ Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth, 2012 a throsglwyddwyd y pŵer i ymchwilio i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill, 2012. Mae unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd yn y rhagair hwn yn gyfystyr â chyfeiriad at y Comisiynydd.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Adroddiadau ar ymchwiliadau

Llunnir adroddiad o dan adran 19 y Ddeddf ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad:

19. – (1) Lle bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 17 uchod bydd yn anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad i'r corff cyhoeddus o dan sylw, at yr Ysgrifennydd Gwladol² ac, lle cynhelir yr ymchwiliad yn sgil cwyn a wnaed o dan adran 18 uchod, at yr achwynydd.

(2) Lle cred y Bwrdd y byddai'n briodol i'r adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gael ei gyhoeddi, naill ai ar ffurf adroddiad a wneir o dan is adran (1) uchod neu ar ryw ffurf arall, caiff y Bwrdd drefnu ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.

(3) Lle bydd y Bwrdd ar ôl gorffen ymchwiliad, yn fodlon bod y corff cyhoeddus dan sylw wedi methu â chyflawni'r cynllun, caiff y Bwrdd gynnwys yn ei adroddiad argymhellion ynghylch camau i'w cymryd gan y corff cyhoeddus er mwyn cywiro'r methiant neu er mwyn osgoi methiant yn y dyfodol.

○ Cydymffurfio â chynlluniau – Cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Os yw'r Comisiynydd o'r farn, yn dilyn llunio adroddiad, bod corff cyhoeddus wedi methu â gweithredu camau a argymhellwyd ganddo, caiff gyfeirio'r mater at y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg:

20. – (1) Os ymddengys ar unrhyw adeg i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd mewn adroddiad o dan adran 19 uchod, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd a chan y corff cyhoeddus o dan sylw, fod y corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad, caiff roi'r cyfryw gyfarwyddiadau i'r corff cyhoeddus ag y cred y bo'n briodol.

(3) Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan isadran (2) uchod, os gwneir cais ganddo, drwy gyfrwng mandamws.

² Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, anfonir adroddiadau o dan adran 19 y Ddeddf at y Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

1 Cyd-destun

- 1.1 Mae gan Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) gynllun iaith Gymraeg a baratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf). Cafodd y cynllun iaith ei gymeradwyo ar 10 Ionawr 2018.
- 1.2 Mae'r cynllun iaith yn datgan fod Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.
- 1.3 Prif amcan yr adroddiad hwn yw dod i gasgliadau, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, ynglŷn â chydymffurfiaeth Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) â chymalau penodol o'i gynllun iaith. Nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliadau ynghylch perfformiad cyffredinol Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) wrth gyflawni ei gynllun iaith.

2 Sail yr ymchwiliad

- 2.1 Ar 25 Medi 2019 daeth nifer o negeseuon ar wefannau cymdeithasol mewn perthynas â phryderon am argaeledd profion gyrru drwy gyfrwng y Gymraeg i'm sylw.
- 2.2 Roedd y negeseuon yn honni bod profion gyrru sydd i'w cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth o ganolfannau prawf ledled Cymru yn cael eu canslo a'u hail drefnu gyda dyddiad newydd y prawf wythnosau os nad misoedd wedi'r dyddiad gwreiddiol. Bu i'r negeseuon gael sylw gan y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 2.3 Roedd y negeseuon yma yn cyfeirio at ohirio profion cyfrwng Cymraeg ar y funud olaf a pheidio cynnig dyddiad arall i gael prawf yn Gymraeg am ddeufis ar gyfer prawf yn y Bala. Yn yr un modd cafodd prawf ei ohirio am ddeufis yn y ganolfan ym Mhwlheli. Soniodd aelodau eraill o'r cyhoedd am drefnu profion yn Saesneg gan bod angen aros am amser mor hir am brofion cyfrwng Cymraeg. Soniodd aelod arall am drefnu prawf Cymraeg yn y ganolfan yn Aberystwyth er bod y rhestr aros yn hirach yn Gymraeg. Disgrifiodd yr unigolion a effeithiwyd gan y sefyllfaoedd yma y broses o drefnu profion gyrru Cymraeg fel sefyllfa "annheg", "digalon" ac "annerbyniol".
- 2.4 Anfonwyd llythyr i'r DVSA ar 26 Medi 2019 yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth mewn perthynas â'r amheuaeth erbyn 10 Hydref 2019.
- 2.5 Cefais e-bost gan y DVSA ar 26 Medi 2019 yn cydnabod derbyn y llythyr ac yn nodi y byddent yn ymdrin â'r cais fel Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mewn ymateb i'r e-bost hwnnw, anfonwyd e-bost at y DVSA yn nodi bod gennyf fel Comisiynydd y Gymraeg bwerau statudol i sicrhau bod y DVSA yn cydymffurfio â'u cynllun iaith Gymraeg ac os na fyddwn yn derbyn ymateb erbyn y dyddiad a nodwyd, y byddwn yn bwrw ymlaen i ystyried sut orau i ddelio â'r mater.
- 2.6 Cafwyd ymateb gan y DVSA i'r llythyr yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ar 11 Hydref 2019. Roedd y llythyr yn cynnwys ymateb i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd ond nid oedd y DVSA wedi darparu ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau ar sail yr amser honedig y byddai'n ei gymryd i gasglu'r wybodaeth. Dywed y DVSA yn eu hymateb,

“Er mwyn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, byddai'n rhaid i ni adolygu 3303 o gofnodion prawf â llaw, yr ydym yn amcangyfrif y byddai'n cymryd tua 5 munud fesul cofnod. Byddai 3303 o gofnodion prawf wedi'u canslo ar 5 munud fesul cofnod yn cymryd 16,515 o funudau i leoli a chyfuno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, sy'n cyfateb i 275 awr 15 munud; neu un aelod o staff llawn amser yn gweithio 37 diwrnod. Y terfyn costau ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Mae hyn yn cyfateb i un aelod o staff sy'n gweithio am 3.5 diwrnod ar £25 yr awr, neu gyfanswm o 24 awr. Byddai 275 awr 15 munud yn mynd y tu hwnt i'r terfyn costau a osodwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog.”

- 2.7 Ymddengys bod y DVSA wedi ymdrin â'r cais am wybodaeth fel Cais Rhyddid Gwybodaeth ac nid fel cais am wybodaeth gan reoleiddiwr. O ganlyniad i hynny, ni wnaethant ddarparu ymateb llawn i'r cwestiynau a ofynnwyd ac ni gyflwynwyd gwybodaeth ddigonol i roi sicrwydd i mi eu bod unai yn cydymffurfio â'r cymalau perthnasol neu yn cymryd camau er mwyn sicrhau y byddant yn cydymffurfio yn y dyfodol.

- 2.8 Roedd y DVSA yn amharod i ryddhau a rhannu gwybodaeth gyda mi yn gyffredinol mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth yn dilyn derbyn cwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â chynllun iaith y DVSA.
- 2.9 O ystyried amharodrwydd y DVSA i ddarparu gwybodaeth, roeddwn o'r farn mai cynnal ymchwiliad oedd yr unig ffordd o gael y wybodaeth angenrheidiol. Drwy gynnal ymchwiliad byddai modd sefydlu a yw'r DVSA yn cydymffurfio gyda'r cymalau perthnasol o'u cynllun iaith Gymraeg mewn perthynas â phrofion gyrru yn Gymraeg ai pheidio ag er mwyn datrys y mater hwn.
- 2.10 Ar ddiwedd y cyfnod o ohebu anffurfiol roedd y DVSA wedi methu â darparu sicrwydd digonol i mi ei fod yn gweithredu'n unol â'i gynllun iaith.

3 Yr ymchwiliad

- 3.1 Penderfynais arfer fy mhwerau o dan adran 17 y Ddeddf er mwyn cynnal ymchwiliad i ganfod a fu methiant gan y DVSA i gyflawni'r cynllun iaith. Hysbyswyd prif weithredwr y DVSA o hyn ar 4 Tachwedd 2019.
- 3.2 Ar 4 Tachwedd 2019 anfonwyd llythyr at y DVSA yn egluro testun a threfn yr ymchwiliad ac yn gofyn cwestiynau ar gyfer cywain gwybodaeth. Eglurwyd y byddai'r ymchwiliad yn ystyried cyflawniad y cymalau canlynol o'r cynllun iaith:

- *Wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, bydd yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.*

- **Cyflenwi gwasanaethau**

Mae profion ar gael yn Gymraeg ym mhob canolfan brofi theori ac ymarferol yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai hynny y tu allan i Gymru y mae eu dalgylch yn cynnwys rhan o Gymru. Mae safon ac ansawdd ein gwasanaethau'n gyson ledled Cymru.

Gall ymgeiswyr ddewis cymryd prawf ymarferol yn Gymraeg wrth archebu a darperir Arholwr sy'n siarad Cymraeg.

- 3.3 Nodwyd y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn breifat gan dîm Ymchwilio a Gorfodi'r Comisiynydd, ac y byddai'n dilyn y camau canlynol:

1. Derbynn gwybodaeth a thystiolaeth gan y DVSA erbyn 2/12/2019.
2. Cynnal dadansoddiad pen desg o'r wybodaeth ac ystyried yr angen i gasglu gwybodaeth bellach, er enghraifft trwy gyfarfod gyda swyddogion y DVSA.
3. Paratoi adroddiad drafft ar ganfyddiadau'r ymchwiliad a rhoi cyfle i y DVSA wirio ei ffeithiau.
4. Anfon copi o'r adroddiad terfynol at y DVSA a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.
5. Cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cydymffurfiaeth y DVSA gyda chymalau penodol o'i gynnllun iaith. Mae wedi'i seilio ar wybodaeth a thystiolaeth a dderbyniwyd gan y DVSA.

- 3.4 Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad derbyniais ohebiaeth gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r trafferthion yr oedd ei merch wedi ei gael yn ceisio trefnu prawf gyrru ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg. Esboniwyd wrth y DVSA y byddai eu hymateb i'r ohebiaeth yna hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad yma gan bod y pwnc yn berthnasol.
- 3.5 Edrychwyd hefyd ar brofiadau unigolion a fynychodd grwpiau trafod a drefnwyd gan fy staff dros y ddwy flynedd diweddfaf.

4 Y dystiolaeth

Ystyriaeth 1: Cyflwyniad

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymalau canlynol o adran ddechreuol y cynllun iaith:

Wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, bydd yr Asiantaeth Safonau Gyrrwr a Cherbydau (DVSA) yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.

- 4.1 Roedd y pryderon a drafodwyd yn y cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio at brofion gyrru cyfrwng Cymraeg yn cael eu gohirio a dyddiadau pell yn cael eu cynnig ar gyfer ail drefnu yn Gymraeg.
- 4.2 Roedd rhai unigolion yn cyfeirio at aros am ddau neu dri mis am ail drefnu profion oedd i fod i'w cynnal yng nghanolfannau prawf yn Y Bala ac ym Mhwllheli ym Medi a Hydref 2019.
- 4.3 Roedd un unigolyn yn sôn am y cyfle i aildrefnu prawf yn Saesneg yn llawer cynt na dyddiad ar gyfer prawf yn Gymraeg.
- 4.4 Soniodd unigolyn arall am wneud prawf gyrru ym mis Mai 2019 yn Aberystwyth yn Gymraeg. Bu'n llwyddiannus i drefnu prawf gyda arholwr oedd yn siarad Cymraeg ond esboniodd y bu'n rhaid aros yn hirach am brawf Cymraeg nac am brawf Saesneg.
- 4.5 Er mwyn canfod a oedd y DVSA wedi cydymffurfio â'r cymal uchod gofynnwyd nifer o gwestiynau iddynt am y nifer o geisiadau am brofion Cymraeg y gwnaethant eu derbyn a faint o'r profion Cymraeg gafodd eu cynnal, faint o brofion Cymraeg gafodd eu canslo, faint o amser oedd angen aros i aildrefnu prawf a faint o'r rhai y cafodd eu prawf eu canslo wnaeth ail drefnu yn Saesneg. Gofynnwyd hefyd am y data cyfatebol ar gyfer profion gyrru yn Saesneg.
- 4.6 Edrychodd fy staff hefyd ar ddull y DVSA o gynnig prawf gyrru yn Gymraeg.
- 4.7 Derbyniwyd ymateb gan y DVSA ar 29 Tachwedd 2019. Yn eu ymateb eglurodd y DVSA eu bod yn cefnogi ac yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Esbonnir eu bod yn darparu profion theori a phrofion gyrru ymarferol yn Gymraeg gydag arholwyr Cymraeg eu hiaith ar gael ar gais wrth archebu. Esbonnir hefyd eu bod yn gweithio gyda eu Adran Gweithrediadau i gefnogi ac annog staff i ddysgu Cymraeg ble bo angen.
- 4.8 Yn ôl ymateb ysgrifenedig y DVSA mae'r holl alwadau sy'n ymwneud â busnes DVSA yn cael eu hateb gan y canolfannau gwasanaeth i gwsmeriaid yn Abertawe a Newcastle. Esbonnir eu bod yn croesawu ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.9 Fe wnaeth y DVSA gyflwyno data ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2018 a 30 Mehefin 2019 gan nad oedd y data ar gael ar ôl 30 Mehefin 2019 ar y pryd. Mae crynodeb o'r data i'w weld yn y tabl isod:

Canolfan brawf	Nifer ceisiadau am brofion Cymraeg	Canran ceisiadau am brofion Cymraeg	Nifer ceisiadau am brofion Saesneg	Canran ceisiadau am brofion Saesneg
Y Fenni	0	0	3663	100
Aberystwyth	20	2.08	941	97.92
Y Bala	48	7.1	627	92.9
Bangor	171	3.5	4691	96.5
Y Barri	0	0	2347	100
Aberhonddu	0	0	1165	100
Pen-y-Bont	1	0.22	4556	99.98
Caernarfon (LGV)	0	0	835	100
Caerdydd (Llanisien)	0	0	10574	100
Aberteifi	0	0	976	100
Caerfyrddin	55	3.64	1454	96.36
Llanbedr Pont Steffan	24	3.19	729	96.81
Llandrindod	0	0	674	100
Llanelli	15	0.45	3327	99.55
Llantrisant	40	0.71	5609	99.29
Merthyr Tudful	3	0.06	4667	99.94
Mynwy	0	0	2557	100
Casnewydd	0	0	8320	100
Casnewydd (LGV)	0	0	741	100
Y Drenewydd	38	2.97	1241	97.03

Doc Penfro	0	0	2538	100
Pwllheli	54	6.68	754	93.32
Rhyl	17	0.43	3909	99.57
Abertawe	3	0.03	8887	99.97
Wreccsam	0	0	4414	100
Wreccsam (LGV)	0	0	1297	100
CYFANSWM	491	0.6	81493	99.4

- 4.10 Yn eu hymateb ysgrifenedig mae'r DVSA yn nodi bod rhai profion yn cael eu harchebu yn Saesneg ond efallai y byddant yn cael eu cynnal yn Gymraeg os yw arholwr sy'n siarad Cymraeg yn cynnal y prawf gyrru. Esbonnir hefyd y gall arholwyr Cymraeg gael eu defnyddio mewn canolfannau prawf eraill os oes galw cynyddol am brofion Cymraeg.
- 4.11 Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y ganran sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd y lleolir y canolfannau a'r ganran o brofion Cymraeg a archebwyd. Er enghraifft mae'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn ardal Meirionnydd lle mae canolfan brofi Y Bala yn 59.4% tra roedd y ganran wnaeth gais am brawf gyrru ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg yn 7.1%. Mae'r ganran sy'n siarad Cymraeg ym Mangor yn 36.4% ac yng ngweddill Arfon yn 77% ond dim ond 3.5% o'r ceisiadau oedd am brofion gyrru trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd mae'r ganran ar gyfer y rhai sy'n siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn 47.3% ond dim ond 2.08% o'r ceisiadau am brofion gyrru yn Aberystwyth oedd am brawf gyrru cyfrwng Cymraeg a dim ond 3.19% yn Llanbedr Pont Steffan.
- 4.12 Dim ond 0.6% o'r ceisiadau drwy Gymru gyfan oedd am brofion gyrru yn Gymraeg. Mae'r ganran yma yn isel iawn ac rwyf o'r farn bod angen edrych ymhellach ar y dull mae'r DVSA yn cynnig dewis iaith ar gyfer profion.
- 4.13 Esbonia'r DVSA nad ydynt yn gallu ateb y cwestiwn sy'n gofyn faint o amser sydd rhwng dyddiad canslo prawf ac aildrefnu prawf arall. Nid ydynt ychwaith yn gallu egluro pa mor hir yw'r cyfnod o amser y mae'n rhaid i ymgeiswyr aros am brawf gyrru cyfrwng Saesneg. Esbonnir y bydd amseroedd aros yn amrywio rhwng canolfannau gwahanol ac yn ddibynnol ar adeg y flwyddyn.
- 4.14 Gofynnwyd i'r DVSA am wybodaeth bellach ynglŷn â phroffion a gafodd eu canslo ac ar 28/2/2020 darparodd y DVSA wybodaeth am brofion Cymraeg a gafodd eu canslo rhwng 1 Medi 2018 ac 31 Awst 2019. Yn ôl y DVSA cafodd 47 prawf eu canslo yn ystod y cyfnod yma. Cafodd 44 eu canslo oherwydd problem gan yr Asiantaeth a thri oherwydd tywydd gwael. Darparodd y DVSA fanylion manwl ar gyfer y profion a gafodd eu canslo.

4.15 Roedd sawl enghraifft o brofion yn cael eu gohirio am gyfnodau o fis i ddau fis. Esboniodd y DVSA bod profion Saesneg hefyd yn cael eu gohirio o bryd i'w gilydd hefyd ac nad oedd modd iddynt gyflwyno'r data cyfatebol Saesneg i weld paham y cafodd y profion yma eu gohirio oherwydd swmp y data.

Nifer a chanran o brofion cyfrwng Cymraeg y bu'n rhaid i'r DVSA eu canslo oherwydd problemau gan yr Asiantaeth ac am resymau eraill ee tywydd drwg rhwng 1/07/2018 a 30/06/2019 fesul canolfan

Canolfan	Ceisiadau ar gyfer profion gyrru Cymraeg rhwng 1/7/18 a 30/6/19	Profion gynhaliwyd yn Gymraeg rhwng 1/7/18 a 30/6/19	DVSA wedi canslo'r prawf (nifer a chanrannau)		Prawf wedi ei ganslo am resymau eraill ee tywydd drwg (nifer)
Aberystwyth	20	0	1	5%	0
Bala	48	46	4	8.33%	1
Bangor	171	159	18	10.53%	2
Pen-y-Bont	1	0	Dim gwybodaeth		Dim gwybodaeth
Caerfyrddin	55	55	5	9.09%	0
Chevron (Fflint)	2	2	Dim gwybodaeth		Dim gwybodaeth
Llanbedr Pont Steffan	24	1	1	4.17%	0
Llanelli	15	14	Dim gwybodaeth		Dim gwybodaeth
Llantrisant	40	39	8	20%	0
Merthyr Tudful	3	3	Dim gwybodaeth		Dim gwybodaeth
Y Drenewydd	38	25	2	5.26%	0
Pwllheli	54	53	2	3.70%	0
Rhyl	17	17	5	29.41%	0
Abertawe	3	3	Dim gwybodaeth		Dim gwybodaeth

Nifer a chanran o brofion cyfrwng Saesneg y bu'n rhaid i'r DVSA eu canslo oherwydd problemau gan yr Asiantaeth ac am resymau eraill ee tywydd drwg rhwng 1/07/2018 a 30/06/2019 fesul canolfan

	Ceisiadau am brofion gyrru yn Saesneg rhwng 1/7/18 a 30/6/19	DVSA wedi canslo'r prawf (nifer a chanrannau)		Prawf wedi ei ganslo am resymau eraill ee tywydd drwg (nifer)
Y Fenni	3663	143	3.9%	6
Aberystwyth	941	1	0.11%	0
Y Bala	627	43	6.86%	10
Bangor	4691	302	6.44%	94
Y Barri	2347	26	1.11%	7
Caernarfon LGV	835	57	6.83%	5
Caerdydd (Llanisien)	10574	678	6.41%	30
Aberteifi	976	4	0.41%	0
Caerfyrddin	1454	16	1.10%	0
Llanbedr Pont Steffan	729	4	0.55%	6
Llandrindod	674	59	8.75%	2
Llantrisant	5609	387	6.90%	25
Llanelli	3327	53	1.59%	4
Merthyr Tudful	4667	234	5.01%	37
Mynwy	2557	56	2.19%	21
Casnewydd	8320	398	4.78%	44
Casnewydd LGV	741	3	0.40%	1
Y Drenewydd	1241	72	5.80%	4
Doc Penfro	2538	5	0.20%	3
Pwllheli	754	26	3.45%	0
Rhyl	3909	103	2.63%	15

Abertawe	8887	202	2.27%	57
Wrecsam	4414	115	2.61%	32
Wrecsam LGV	1297	77	5.94%	35

- 4.16 O edrych ar y canrannau o brofion a gafodd eu canslo gan y DVSA mae'n anodd cymharu ymhob achlysur gan bod y niferoedd ar gyfer profion Cymraeg yn fychan. Fodd bynnag, mae rhai canolfannau yn amlwg wedi canslo canran uwch o brofion cyfrwng Cymraeg nac a wnaed ar gyfer profion cyfrwng Saesneg. Er enghraifft canslodd y DVSA 20% o brofion Cymraeg yn Llantrisant a dim ond 6.90% o'r rhai Saesneg. Canslwyd 2.63% o brofion Saesneg yn Y Rhyl, ond ar gyfer yr un cyfnod canslwyd 29.41% o'r profion cyfrwng Cymraeg.
- 4.17 Ni ddarparodd y DVSA esboniad ynglŷn â phaham bod llai o brofion wedi eu cynnal yn Gymraeg na gafodd eu trefnu. Fe gafodd 20 o geisiadau ar gyfer profion gyrru yn Gymraeg eu derbyn ar gyfer y cyfnod yma yng nghanolfan Aberystwyth ond ni chynhaliwyd yr un prawf gyrru trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd fe drefnwyd 24 prawf yn Gymraeg yng nghanolfan Llanbedr Pont Steffan ond dim ond 1 gafodd eu cynnal yn Gymraeg. Cynhaliwyd 20 yn llai o brofion yn Gymraeg ym Mangor na'r nifer gafodd eu trefnu yn Gymraeg.
- 4.18 Yn ôl llythyr y DVSA dyddiedig 11 Hydref 2019 fe ganslodd y DVSA 46 allan o 491 prawf gyrru trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 1 Gorffennaf 2018 a 30 Mehefin 2019 sydd yn 9.37% o'r brofion Cymraeg a archebwyd. Canslodd y DVSA 3010 allan o 87397 o brofion cyfrwng Saesneg yn ystod yr un cyfnod, sef 3.44%. Felly roedd y ganran drwy Gymru o brofion cyfrwng Cymraeg a gafodd eu canslo bron tair gwaith yn fwy na'r ganran o brofion Saesneg a gafodd eu canslo.
- 4.19 Mae'r niferoedd o brofion gyrru sy'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn fy siomi'n fawr. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd o Gymru â'r nifer o brofion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal. Rhwng 1 Gorffennaf 2018 a 30 Mehefin 2019 archebwyd 87888 prawf gyrru ymarferol yng Nghymru, dim ond 491 ohonynt archebwyd yn Gymraeg sef 0.56%.
- 4.20 Mae ymchwil yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os ydynt yn credu y bydd hynny'n arwain at unrhyw oedi, annifyrrwch neu drafferth.
- 4.21 Yn fy Adroddiad Sicrwydd ar gyfer 2018-2019 fe adroddais bod enghreifftiau o bobl yn cael llawer llai o ddewis o ran amser a lleoliad apwyntiadau fel profion gyrru os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Adroddodd mynychwyr grwpiau trafod eu bod wedi dewis trefnu prawf gyrru yn y Gymraeg ond nid oedd yr arholwr yn siarad Cymraeg. Mewn achos arall nid oedd mynychwr arall wedi gallu cael prawf gyrru ymarferol yn Gymraeg gan nad oedd arholwr yn yr ardal oedd yn siarad Cymraeg. Doedd rhai mynychwyr eraill ddim yn gwybod bod modd gwneud y prawf yn Gymraeg.
- 4.22 Darparodd y DVSA wybodaeth ynglŷn â'r nifer o arholwyr sy'n siarad Cymraeg sydd yn gweithio mewn canolfannau prawf gyrru. Fe wnaeth yr Asiantaeth esbonio eu bod yn annog a chefnogi staff i ddysgu Cymraeg lle bo angen ac fe wnaethant gadarnhau

eu bod wrthi'n recriwtio arholwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n amlwg o'r wybodaeth dderbyniwyd isod bod nifer o ganolfannau prawf gyrru heb arholwyr sy'n siarad Cymraeg ac mae'n debygol bod hynny yn effeithio'n uniongyrchol ar y nifer o profion gyrru ymarferol Cymraeg sy'n cael eu cynnig.

Nifer o Arholwyr Cymraeg fesul canolfan

Canolfan	Nifer arholwyr Cymraeg
Aberystwyth	1
Bangor	4
Caerfyrddin	1
Llanelli	2
Llantrisant	1
Merthyr Tudful	1
Y Drenewydd	1
Rhyl	1
Abertawe	1
Wrecsam LGV	1
Tîm Gorfodi ADI	2

- 4.23 Esboniodd y DVSA na fyddai modd iddynt wybod a fyddai rhywun wedi gallu dweud eu bod wedi archebu prawf cyfrwng Saesneg yn hytrach nag aros am brawf cyfrwng Cymraeg.
- 4.24 Esboniodd y DVSA ymhellach nad oedd modd iddynt symud arholwr Cymraeg o ganolfan arall mewn sefyllfa ble mae arholwr sy'n siarad Cymraeg yn absennol oherwydd salwch oherwydd y byddai gan yr arholwyr yn y canolfannau eraill eisoes wedi eu hymrwymo i gynnal profion yn eu canolfannau eu hunain.

Ystyriaeth 2: Cyflenwi gwasanaethau (darpariaeth)

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymal canlynol o adran Cyflenwi Gwasanaethau ei gynllun iaith:

Mae profion ar gael yn Gymraeg ym mhob canolfan brofi theori ac ymarferol yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai hynny y tu allan i Gymru y mae eu dalgyrch yn cynnwys rhan o Gymru. Mae safon ac ansawdd ein gwasanaethau'n gyson ledled Cymru.

- 4.25 Er mwyn canfod a oedd y DVSA wedi cydymffurfio â'r cymal uchod gofynnwyd i'r Asiantaeth wirio honiad achwynydd gysylltodd gyda'r Comisiynydd i gwyno ynglŷn â phrofiad personol ac egluro i mi paham mae'r dewis roddwyd i'r ymgeisydd oedd aros dros 5 wythnos yn hirach am brawf Gymraeg na phrawf Saesneg.
- 4.26 Roedd y manylion dderbyniais gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r trafferthion roedd ei merch wedi ei gael wrth geisio trefnu prawf gyrru trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ganolfan yn Y Rhyl yn codi amheuaeth pellach ynglŷn â chydymffurfiaeth y DVSA gyda'r cymal uchod. Roedd profiadau unigolion a oedd wedi mynegi eu hanfodlonrwydd ar gyfryngau cymdeithasol wedi codi amheuaeth am weithrediad y cymal uchod, ac mae profiad yr unigolyn yma yn enghraifft arall.
- 4.27 Er mwyn cydymffurfio gyda'r cymal uchod roedd angen i'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg oedd yn cael ei gynnig yn y ganolfan leol o'r un safon ac ansawdd â'r gwasanaeth Saesneg oedd yn cael ei gynnig. Mae geiriad cymalau cynllun iaith yn cyflwyno sut y bydd sefydliad yn cynnal yr egwyddor o drin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 4.28 Esboniodd yr achwynydd y cafodd ei merch ei hysbysu dau ddiwrnod cyn y prawf gyrru na fyddai arholwr Cymraeg ar gael. Roedd y teulu yn siomedig ynglŷn â hyn ac ynglŷn â chynnig y DVSA i barhau gyda arholwr Saesneg neu aros dros bump wythnos am arholwr Cymraeg.
- 4.29 Disgrifiodd y rhiant sut y bu i'w merch fynd ar wefan y DVSA yn nechrau Rhagfyr 2019 i geisio archebu prawf ymarferol yn Y Rhyl. Tra bod modd archebu prawf Saesneg yn ystod Ionawr 2020 nid oedd yr un prawf ar gael yn Gymraeg drwy gydol 2020 pan geisio archebu ar y wefan. Ar 17 Rhagfyr 2019 fe alwodd y rhiant y DVSA i geisio trefnu prawf cyfrwng Cymraeg. Cadarnhaodd yr aelod o staff ar y ffôn nad oedd modd archebu prawf cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd yr aelod o staff a fyddai'r ymgeisydd yn fodlon derbyn prawf drwy gyfrwng y Saesneg gan y byddai'n hynny'n bosibl ym mis Ionawr 2020.
- 4.30 Esboniodd y rhiant mai Cymraeg yw dewis iaith ei merch a'i bod o'r farn bod cael gwasanaethau yn y Gymraeg yn hawl sylfaenol. Esboniodd yr aelod o staff y gallai drefnu prawf ym mis Ionawr 2020 a nodi yn y bwlch "special needs" bod angen arholwr Cymraeg. Disgrifiodd y rhiant yr ymateb yma fel "ymateb hollol sarhaus".
- 4.31 Cysylltodd y rhiant gyda'r DVSA yn ysgrifenedig i ofyn iddynt gadarnhau y byddai arholwr Cymraeg ar gael i gynnal y prawf. Derbyniodd ymateb gan y DVSA yn nodi'r canlynol:

“Fel y nodwch yn eich e-bost, gallwch ddewis sefyll prawf ymarferol yn Gymraeg wrth archebu. Gofynnwn ni a oes gan ymgeiswyr prawf unrhyw ofynion arbennig. Rydych chi'n gywir, rydych chi'n dweud wrthym ar yr adeg hon a hoffech chi gael arholwr sy'n siarad Cymraeg. Nid yw hyn yn ddirmygus mewn unrhyw ffordd, rydym yn gwneud hyn i gynorthwyo ein cwsmeriaid.”

- 4.32 Fe wnaeth y DVSA esbonio wrthi hefyd eu bod yn y broses o recriwtio arholwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Cysylltodd yr aelod o'r cyhoedd unwaith eto i ofyn am gadarnhad y byddai arholwr Cymraeg yn cynnal y prawf. Deuddydd cyn dyddiad y prawf cysylltodd y DVSA i esbonio na fyddai arholwr Cymraeg ar gael ar ddyddiad y prawf. Cynigiodd y DVSA ddyddiad newydd i gael prawf Cymraeg. Roedd dyddiad y prawf Cymraeg dros bump wythnos o'r dyddiad prawf oedd yn cael ei gynnis yn Saesneg.
- 4.33 Bu'n rhaid i'r unigolyn wneud y prawf yn Saesneg gan nad oedd am aros 5 wythnos am brawf gyrru ymarferol yn y Gymraeg.
- 4.34 Gofynnais gwestiynau pellach i'r DVSA yn benodol ynglŷn â'r achos yma. Yn ôl y DVSA roedd yr unigolyn dan sylw wedi archebu prawf Saesneg ar-lein a'u bod nhw wedi esbonio dros y ffôn nad oedd prawf trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael drwy mis Ionawr ac mai'r dyddiad cyntaf ym mis Chwefror oedd 27 Chwefror. Cofnodwyd ar system y DVSA bod yr ymgeisydd yn hapus i sefyll prawf Saesneg ond mai Cymraeg yw iaith gyntaf yr ymgeisydd. Esboniodd y DVSA ymhellach:-
- “Nid oes gennym unrhyw arholwyr Cymraeg eu hiaith ar hyn o bryd sydd wedi'u lleoli'n barhaol yn Y Rhyl. Ond rydym wedi ymrwmo i ddarparu profion yn y Gymraeg pan fydd cwsmeriaid yn gofyn amdanynt... Pan dydd ymgeisydd yn gofyn am brawf yn Gymraeg, mae angen i ni anfon arholwr yno o ganolfan wahanol.”
- 4.35 Esboniodd y DVSA yn eu llythyr dyddiedig 11 Chwefror 2020 mai'r dyddiadau nesaf ar gyfer profion Cymraeg a Saesneg yn Y Rhyl yw 27 Chwefror 2020. Gofynnwyd i'r DVSA gyflwyno cipluniau o ba pryd y gellir archebu profion Cymraeg a Saesneg yn Y Rhyl ar gyfer 3 mis cyntaf 2020. Ni ddarparwyd y wybodaeth yma.
- 4.36 Yr oedran cyfartaledd ar gyfer pasio prawf gyrru ymarferol yng Nghymru yw 21³. Er mwyn cymharu ffigyrau o ran y nifer o bobl ifanc sy'n dewis gwasanaethau Cymraeg yn arferol edrychwyd ar y nifer sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg pan mae'r opsiwn ar gael. Yn y sector Addysg Uwch mae 5.4% o fyfyrwyr yng Nghymru yn dewis astudio rhywfaint o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae 6% o fyfyrwyr llawn amser mewn Prifysgolion yng Nghymru wedi astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigyrau yma, er yn isel, ddeg gwaith yn fwy nag a wnaeth archebu prawf gyrru trwy gyfrwng y Gymraeg⁴.

³https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/5547/dsa-ia0031112a.pdf

⁴ Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes Addysg Bellach ac Uwch 2017 a Ystadegau ar gyfer Cymru – Bwletin Ystadegol 2017-18

Ystyriaeth 3: Cyflawni gwasanaethau (dewis iaith)

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymal canlynol o adran Cyflenwi Gwasanaethau ei gynllun iaith:

Gall ymgeiswyr ddewis cymryd prawf ymarferol yn Gymraeg wrth archebu a darperir Arholwr sy'n siarad Cymraeg.

- 4.37 Er mwyn darganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â sut yn union yr oedd y broses archebu profion ymarferol Cymraeg yn gweithio fe wnaeth swyddogion y Comisiynydd waith pen desg er mwyn gweld sut roedd y profion yn cael eu cynnig. Dangosodd y gwaith pen desg bod gwefan y DVSA yn rhoi lle i ddewis gwneud prawf gyrru ymarferol yn y Gymraeg ond nad yw'r dewis yma yn ddewis cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn hytrach na rhoi dewis cyfartal rhwng y ddwy iaith rhaid nodi bod gennych "ofynion arbennig" er mwyn cael dewis "Gofyniad ar gyfer cael arholwr sy'n medru siarad Cymraeg". Geiriad y cwestiwn yw "A oes gennych unrhyw ofynion arbennig?"
- 4.38 Mae'n amhosib gwybod pa effaith mae cynnig y dewis yn y modd yma yn ei gael ar unigolion sy'n archebu prawf. Gall hyn olygu bod unigolion yn dewis cymryd prawf yn Saesneg gan mai dyma'r cynnig diofyn. Nid yw'r cynnig i gael prawf trwy'r Gymraeg yn gynnig cyfartal nac ychwaith yn gynnig rhagweithiol. Felly er bod yr ymgeisydd yn gallu dewis gwneud cais am brawf Cymraeg, "Gofyniad arbennig" yw prawf Cymraeg yn hytrach na dewis cyfartal.
- 4.39 Gofynnwyd i'r DVSA am fanylion ynglŷn â'r modd y mae'r cynnig yma yn cael ei eirio. Derbyniwyd yr ymateb yma ar 11/02/2020:
- "Wrth archebu prawf, gofynnwn i ymgeisydd ddweud wrthym os oes ganddynt unrhyw ofynion arbennig, gan gynnwys a ydynt am gael yn Gymraeg. Mae gofynion arbennig yn cynnwys nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er nad yw'r Gymraeg yn cael ei chwmpasu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym yn trin cais am arholwr Cymraeg fel petai'n nodwedd warchoddedig. Felly rydym yn hyderus ein bod yn rhoi dewis iaith cyfartal fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac wedi cydymffurfio â'n rhwymedigaethau yn yr achos hwn."*
- 4.40 Esboniodd y DVSA bod yr Asiantaeth yn "cefnogi ac yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl". Un o'r enghreifftiau gan y DVSA o wneud hyn yw eu bod "yn darparu profion theori a phroffion gyrru ymarferol yn Gymraeg gydag arholwyr Cymraeg eu hiaith ar gael ar gais wrth archebu".
- 4.41 Gellir gweld cipluniau isod o'r modd y mae prawf gyrru ymarferol Cymraeg yn cael ei gynnig i ymgeiswyr.

Manylion y drwydded - Car

Rhif trwydded yrru

[Beth yw hwn?](#)

Ydych chi wedi cael gorchymyn gan y llys i gymryd prawf estynedig?

[Sut bodddech chi'n swydd?](#)

- Na
- Ie

A oes gennych unrhyw ofynion arbennig?

Anafledd neu amodau eraill, beirhugprydd, arholwr tydd yn siarad Cymraeg

- Na
- Ie

[Manylion bellach ynghyd â'r anghenion arbennig](#)

Rhowch fanylion eich ofynion arbennig neu'ch anafledd os gwelwch yn dda.

Ticlwch bob un sy'n berthnasol.

[Manylion bellach ynghyd â'r anghenion arbennig](#)

Rhowch fanylion eich ofynion arbennig neu'ch anafledd os gwelwch yn dda.

Ticlwch bob un sy'n berthnasol.

Dywedwch wrthym os oes

- Gollwyd ar gyfer gael arholwr sy'n medru siarad Gymraeg
- Hoffech chi f'ch archwiler gata erw gwahanol arnoch chi
- Rydych chi yn feichlog

A oes gennych

- Anghwydeb sy'n cyfyngu a'i symudiad yn eich breichlau, coesau neu gorff
- Dyslecsia
- Epilepsi
- Amodau ar goll
- Paraplegia
- Anghenion dysgu neu addysgol arbennig
- Anghwydeb nad yw'n cyfyngu ar symudiad yn eich breichlau, coesau neu gorff

Ydych chi'n

- Trenn eu clyw
- Hyspwrdd fyddar - gallwch drefnu i ddechongar Ialith Arwyddion Prydein (BSL) oodod gyda chi

[Ffynhonnell](#)

5 Casgliadau

- 5.1 Daw'r adroddiad hwn i farn ynglŷn â chydymffurfiaeth y DVSA â'i gynllun iaith. Yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael casglaf fod y DVSA wedi methu â chyflawni cymalau o'r cynllun iaith.

Casgliad 1: Cyflwyniad

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymalau canlynol o adran ddechreuol y cynllun iaith:

Wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, bydd yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.

Yn yr achos yma fe dynnwyd fy sylw at achosion o brofion gyrru ymarferol cyfrwng Cymraeg yn cael eu canslo. Dangosodd gwybodaeth gyflwynodd y DVSA i mi bod y ganran o brofion Cymraeg gafodd eu canslo dros gyfnod o flwyddyn bron dair gwaith yn fwy na'r ganran o brofion cyfrwng Saesneg a gafodd eu canslo. Roedd y sefyllfa mewn rhai canolfannau unigol yn sylweddol waeth na'r sefyllfa yn genedlaethol. Os yw mwy o brofion Cymraeg yn cael eu canslo nag o brofion Saesneg ni fydd unigolion yn ymddiried yn y gwasanaeth yma ac felly nid oes unrhyw syndod y bydd unigolion yn penderfynu trefnu profion yn Saesneg.

Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau wedi methu â chyflawni cymal yn y cyflwyniad i'w gynllun iaith.

Casgliad 2: Cyflenwi gwasanaethau (darpariaeth)

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymal canlynol o adran Cyflenwi Gwasanaethau ei gynllun iaith,:

Mae profion ar gael yn Gymraeg ym mhob canolfan brofi theori ac ymarferol yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai hynny y tu allan i Gymru y mae eu dalgylch yn cynnwys rhan o Gymru. Mae safon ac ansawdd ein gwasanaethau'n gyson ledled Cymru.

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda mi i esbonio ei bod wedi gorfod dewis rhwng cymryd prawf gyrru ymarferol drwy gyfrwng y Saesneg neu aros dros bump wythnos i gael prawf

gyrru yn Gymraeg. Gan nad oedd prawf gyrru ymarferol Cymraeg ar gael yn yr un modd ag yr oedd prawf ymarferol Saesneg, nid wyf o'r farn bod y DVSA wedi cydymffurfio gyda'r cymal yma.

Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau wedi methu â chyflawni cymal 'cyflenwi gwasanaethau (darpariaeth)' o'i gynllun iaith.

Casgliad 3: Cyflenwi gwasanaethau (dewis iaith)

Roedd amheuaeth nad oedd yr Asiantaeth wedi cyflawni'r cymal canlynol o adran Cyflenwi Gwasanaethau ei gynllun iaith:

Gall ymgeiswyr ddewis cymryd prawf ymarferol yn Gymraeg wrth archebu a darperir Arholwr sy'n siarad Cymraeg.

Er mwyn cydymffurfio gyda'r cymal uchod roedd angen i'r DVSA sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cynnig dewis iaith wrth archebu prawf gyrru ymarferol. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu fel rhan o'r ymchwiliad hwn wedi dangos nad yw dewis iaith yn cael ei gynnig mewn modd rhagweithiol na chyfartal. Ar hyn o bryd os yw ymgeisydd am gael prawf gyrru ymarferol Cymraeg mae angen gwneud cais arbennig gan nodi bod gennych "ofynion arbennig".

Mae'r DVSA wedi cyfeirio at y galw isel am brofion Cymraeg ar fwy nag un achlysur wrth ohebu gyda'r Comisiynydd (26/02/2019 a 26/03/2019). Ni ddylid beio'r diffyg defnydd o'r profion Cymraeg ar y defnyddwyr. Er mwyn i unigolion ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'r DVSA mae angen i'r DVSA wneud hynny mor hawdd â phosib a rhoi dewis cyfartal i'r ymgeiswyr.

Ni ddylai person sy'n dymuno sefyll ei brawf yn Gymraeg wynebu rhwystrau diangen wrth geisio gwneud hynny, a ni ddylai orfod cymryd camau na fyddai'n rhaid i berson sy'n dymuno sefyll prawf Saesneg eu cymryd. Rhaid i sefydliadau gynnig gwasanaethau Cymraeg sydd o ansawdd da ac mae angen gwneud hynny'n ddiodyn neu'n rhagweithiol.

Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau wedi methu â chyflawni cymal Cyflenwi gwasanaethau (dewis iaith) o'i gynllun iaith.

6 Argymhellion

- 6.1 Ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, rwy'n argymhell bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn gweithredu'n unol â'r argymhellion canlynol a wneir dan adran 19 y Ddeddf:

Argymhelliad 1

Argymhellir bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau gynnal adolygiad o'r ffordd y cynigir profion Cymraeg a pharatoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau y gwneir newidiadau i'r modd maent yn cynnig dewis iaith pan yr archebu profion gyrru ymarferol ar-lein er mwyn sicrhau bod profion gyrru ymarferol Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac yn gyfartal. Dylai DVSA rannu canfyddiadau ei adolygiad a'i gynllun gweithredu gyda'r Comisiynydd cyn iddo gychwyn gweithredu arnynt fel y gall gynghori yn ôl yr angen.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 21 Ionawr 2022

Argymhelliad 2

Argymhellir bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn gneud trefniadau er mwyn sicrhau y bydd yn gallu adrodd ar yr ystadegau nad yw'n gallu adrodd arnynt ar hyn o bryd mewn perthynas â chanslo profion, ac adrodd ar yr hyn sy'n digwydd i geisiadau am brofion Cymraeg nad ydynt yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 21 Ionawr 2022

Argymhelliad 3

Argymhellir bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau baratoi strategaeth ar gyfer recriwtio arholwyr sy'n gallu darparu profion gyrru ymarferol yn Gymraeg.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 21 Ionawr 2022

Argymhelliad 4

Argymhellaf fod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn paratoi strategaeth i sicrhau bod yr arholwyr presennol sy'n siarad Cymraeg yn gallu symud rhwng canolfannau i ateb y galw, ac y dylent flaenoriaethu profion gyrru yn y Gymraeg.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 21 Ionawr 2022

Argymhelliad 5

Argymhellir bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau greu trefn i adrodd ar gyflawniad y cynllun iaith ac ar brofion cyfrwng Cymraeg yn benodol i bwyllgor craffu mewnol.

Dylid darparu tystiolaeth o hyn erbyn 21 Ionawr 2022